Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru - Polisi

Teitl: **RHEOLAETH TRYSORLYS**

Cyflwyniad:

Mae'n ofyniad gan Lywodraeth Cymru bod gan Gymdeithasau Tai Cymru strategaeth rheoli trysorlys sy'n cynnwys benthyca a buddsoddiad sy'n lleihau risg i'r eithaf (Cod Rheoleiddio 2006).

Cyfrifoldeb y Bwrdd yw sicrhau bod y Gymdeithas yn cyflogi staff gyda chymwysterau a phrofiad addas, i ffurfio a gweithredu polisi a gweithdrefnau rheolaeth trysorlys a mesurau rheoli addas.

Mae felly'n bwysig bod yn glir am y diffiniad o reolaeth trysorlys a sicrhau fod y polisi a'r strategaeth yn gynhwysfawr.

Datganiad Polisi

1. Mae Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru yn diffinio ei gweithgareddau rheolaeth trysorlys fel:

   “Rheolaeth llif arian y sefydliad, ei thrafodion bancio, marchnad arian a marchnad gyfalaf a rheolaeth benthyciadau; rheoli'r risgiau yn gysylltiedig gyda'r gweithgareddau hynny yn effeithiol; a sicrhau'r perfformiad optimwm yn gyson gyda'r risgiau hynny".

2. Mae Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru yn ystyried mai dynodi, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yw'r prif feini prawf ar gyfer mesur effeithlonrwydd ei gweithgareddau rheolaeth trysorlys. Felly, bydd dadansoddi ac adrodd gweithgareddau rheolaeth trysorlys yn canolbwyntio ar eu goblygiadau risg i'r sefydliad.

3. Mae Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru yn cydnabod y bydd rheolaeth trysorlys effeithiol yn rhoi cefnogaeth tuag at gyflawni ei hamcanion busnes a gwasanaeth. Mae ganddi felly ymrwymiad i egwyddorion sicrhau'r gwerth gorau mewn rheolaeth trysorlys, ac i ddefnyddio technegau mesur perfformiad addas o fewn cyd-destun rheoli risg effeithiol.

Egwyddorion Allweddol:

Cydnabyddir pedair egwyddor allweddol yn nogfen CIPFA ' Treasury Management in the Public Service Code of Practice’, a ddylai fod yn ganolog i bolisi rheolaeth trysorlys. Yr egwyddorion hyn yw:

- Cydymffurfiaeth - gyda statud, rheoleiddiad ac arfer gorau.
- Diogelwch - asedau ariannol.
- Hylifedd - sicrhau adnoddau digonol i gyflawni goblygiadau.
- Effeithlonrwydd ac effeithioldeb - wrth ddefnyddio adnoddau ariannol a sicrhau gwerth am arian.

Mae'r egwyddorion hyn er mwyn sicrhau bod y Gymdeithas yn dilyn ymagwedd lleihau risg i'r eithaf.

Meysydd Perfformiad Allweddol:

A. Bydd y Cyfarwyddydd Gwasanaethau Corfforaethol yn goruchwylio'r swyddogaeth rheolaeth trysorlys o fewn y Gymdeithas ac yn rhoi adroddiad blynyddol ar weithgareddau arfaethedig y Gymdeithas ar gyfer rheolaeth trysorlys ac ar ôl diwedd y flwyddyn yn y fformat a gytunwyd o fewn yr Arferion Rheolaeth Trysorlys a fabwysiadwyd gan y Gymdeithas.

B. Bydd y Cyfarwyddydd Gwasanaethau Corfforaethol, mewn cysylltiad gyda'r Grŵp Cyfarwyddwyr a'r Tîm Rheolaeth Gweithredol, yn sicrhau cydymffurfiaeth gyda phob statud, rheoliadau ac osgoi sbarduno 'digwyddiadau diffygdalu' fel yr amlinellir yn y dogfennau benthyciad.

C. Bydd y Rheolydd Cyllid yn rhoi adroddiad misol o fewn y system adrodd mesurau ar effeithiolrwydd arferion rheolaeth trysorlys o fewn y Gymdeithas.

Ch. Mae'r Rheolydd Cyllid i roi adroddiad ar sefyllfa llif arian cyffredinol y Gymdeithas ar sail fisol drwy'r Cyfrifon Rheolaeth.

D. Bydd y Tîm Rheolaeth Weithredol yn derbyn adroddiadau mesurau ar sail fisol ar effeithiolrwydd arferion rheolaeth trysorlys o fewn y Gymdeithas.

Dd. Bydd y Tîm Rheolaeth Weithredol yn monitro'r risgiau sy'n gysylltiedig gyda rheolaeth trysorlys o fewn ei fap risg.

Pwrpas:	Sicrhau bod y Gymdeithas yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig gyda'r swyddogaeth rheolaeth trysorlys mewn modd effeithlon.
Cyfeirnod:	
Dyddiad Cyhoeddi:	Ionawr 2011
Dyddiad Adolygu:	Mai 2008 Ionawr 2011 Ionawr 2012
Adrannau/Unedau yr effeithir arnynt:	Cyfan
Cymeradwywyd gan:	Bwrdd dyddiedig Ionawr 2011
Swyddog Arweiniol:	Cyfarwyddydd Gwasanaethau Corfforaethol
Cydymffurfiaeth	• Cod Rheoleiddiol 2.4.2.

Statudol	• Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus.	
Ffactorau Risg Strategol	Risg cyfradd llog - y risg y bydd cyfraddau llog yn codi'n uwch na ddisgwylid o fewn llif arian y cynllun busnes. Risg hylifedd - diffyg cronfeydd i alluogi datblygiad parhaus cyfleoedd tai newydd. Digwyddiadau diffygdalu - sbarduno digwyddiad sy'n golygu fod rhaid ad-dalu cyfleuster benthyciad, gyda'r canlyniad felly na fyddai gan y Gymdeithas yr adnoddau arian parod i barhau i fasnachu.	
Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb	*Sut mae/fydd y polisi hwn yn sicrhau y caiff anghenion eu cyflawni'n deg yn neilltuol yng nghyswllt hil, rhyw, anabledd ac ati?*	D/B
	A deimlir y medrai'r polisi fod ag effaith niweidiol ar wahanol grwpiau. Os felly, beth yw'r cyfiawnhad am hyn ac a oes caniatâd cyfreithiol drosto?	Ni ddisgwylir y bydd effaith niweidiol ar unrhyw grwpiau neu unigolion.
	A ymgynghorwyd â grwpiau cynrychioladol yn yr ardal am eu barn ac os felly, beth oedd y canlyniad?	Na
Cyswllt Tenantiaid	*Sut mae/sut fydd y polisi hwn yn sicrhau y caiff anghenion tenantiaid eu diwallu?*	Amcan y polisi yma yw sicrhau y caiff risg ei leihau i'r eithaf posibl i sicrhau bod y cyfleusterau benthyca yn parhau yn eu lle a bod costau benthyca'n parhau yn unol â thybiaethau'r cynllun busnes.
	Sut y teimlir y bydd y polisi yn effeithio ar hawliau a goblygiadau tenantiaid?	Ni ragwelir y bydd y polisi yma yn effeithio ar hawliau a goblygiadau tenantiaid.
	A ymgynghorwyd â thenantiaid ac a roddwyd ystyriaeth i ganlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw wrth ystyried cyflwyno'r Polisi yma?	Ar hyn o bryd, ni ymgynghorwyd â thenantiaid ar y polisi yma.